

Polisi Gwirfoddoli

Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Awst 2015

Mae rhai o'r lluniau sydd ar glawr y ddogfen yn enillwyr cystadleuaeth Ffotograffiaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2015 a llwyddodd rhai ohonyn nhw gyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth hefyd.

- 1. Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion*
- 2. Gofal Canser Tenovus*
- 3. Cerddoriaeth mewn Ysbytai*
- 4. CAIS*
- 5. Cartrefi Cymru*
- 6. Cymdeithas Tai Merthyr Tudful*

Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru, Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Pwrpas y Polisi hwn

2a. Ceisio gwella'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i bobl o bob oed ac o bob rhan o gymdeithas

2b. Helpu gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn fwy effeithiol, gan gynnwys cymorth drwy hyfforddiant priodol

2c. Codi statws gwirfoddoli a gwella ei ddelwedd

3. Camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru, Sefydliadau Hybu Gwirfoddoli a Seilweithiau Trydydd Sector.

Atodiad A – Mathau o Wirfoddoli

Atodiad B – Manteision Gwirfoddoli

Atodiad C – Cefnogi Gwirfoddoli yng Nghymru: Rolau Rhanddeiliaid Pwysig

Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru: Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau

Mae'r ddogfen hon, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn disgrifio'r camau y bydd Llywodraeth Cymru, Seilwaith y Trydydd Sector - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol - a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn eu cymryd i barhau a datblygu ein cefnogaeth i wirfoddoli. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio hybu a dylanwadu ar yr arferion gorau ac mae'n argymhell bod cyrff eraill sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr ac yn eu cefnogi yn mabwysiadu egwyddorion y ddogfen hon.

Lle y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid wedi'i neilltuo neu gyllid drwy gytundeb fframwaith, bydd disgwyl i dderbynwyr grantiau ystyried y polisi hwn.

Adran 1: Cyflwyniad

Y cyd-destun

Cynllun y Trydydd Sector

Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o Gynllun y Trydydd Sector ("y Cynllun") a oedd yn diweddarau'r fframwaith polisi sy'n sail i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector. Mae'r Cynllun yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gynnal Polisi Gwirfoddoli a hynny yw'r ysgogiad i ddatblygu'r ddogfen hon, ar y cyd â'r Sector, drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys diffiniadau o bedair thema drawsbynciol sy'n bwysig ar gyfer cynnal unrhyw weithgarwch sy'n codi o'r Cynllun. Y rhain yw: Datblygu Cynaliadwy; y Gymraeg; Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Threchu Tlodi. Hefyd trafodir materion pwysig sy'n ymwneud â gwirfoddoli a dylid cyfeirio at y diffiniadau sydd yn y Cynllun ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Yr un mor bwysig, wrth ddatblygu'r polisi hwn, yw'r ystyriaeth a roddir i Hawliau Dynol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Egwyddorion Pobl Hŷn y Cenhedloedd Unedig a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaethau i ystyried CCUHP drwy rinwedd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a byddai'n annog gwirfoddolwyr, y sefydliadau y maent yn gweithio gyda hwy a'r cymunedau sy'n cael budd i fynnu eu hawliau hwy a hybu hawliau pobl eraill.

Ystyriaeth bwysig ychwanegol a fydd yn sail i'r ddogfen hon yn y dyfodol yw Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Er na fydd sefydliadau'r Trydydd Sector yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau sector cyhoeddus sydd yn y Bil, bydd rhan allweddol i'w chwarae gan y Trydydd Sector a chan Seilwaith y Trydydd Sector yn benodol. Mae'r Trydydd Sector, a gwirfoddoli'n benodol, yn agwedd ganolog o hyd ar ddatblygu cynaliadwy. Mae rhan allweddol i'w chwarae o hyd gan y Trydydd Sector, drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gwaith o gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru – p'un a yw'n golygu creu cyfleoedd gwaith, hwyluso cymunedau cydlynol neu helpu pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i bobl a chymunedau ledled Cymru, gan hybu bron pob agwedd ar fywyd pob dydd a gwella'r broses o ddarparu nifer o wasanaethau cyhoeddus a mentrau'r Llywodraeth.

Yn y bôn, mae gwirfoddoli'n ymwneud â helpu pobl eraill a chael effaith ar les pobl ond yn aml bydd gwirfoddolwyr yn elwa o'r profiad yn gymaint â'r unigolion a chymunedau y maent yn eu helpu. Mae'r polisi hwn yn disgrifio'r weledigaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru.

Pwrpas y Polisi hwn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision o ddarparu cyllid a chymorth ar gyfer gwirfoddoli. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld gwerth mawr mewn gwirfoddoli am ei fod yn fynegiant pwysig o ddinasyddiaeth ac yn elfen hanfodol mewn democratiaeth.

Pwrpas y polisi hwn yw:

- ceisio gwella'r cyfleoedd gwirfoddoli i bobl o bob oed ac o bob rhan o gymdeithas;
- helpu gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn fwy effeithiol, gan gynnwys cymorth drwy hyfforddiant priodol;
- codi statws gwirfoddoli a gwella ei ddelwedd.

Beth yw gwirfoddoli?

Mae gwirfoddoli'n weithgarwch:

- sy'n cael ei gyflawni'n rhydd, o ddewis
- sy'n cael ei gyflawni er budd i'r cyhoedd/y gymuned
- nad yw'n cael ei gyflawni er mantais ariannol

Os bydd rhywun yn cyflawni gweithgarwch ar sail orfodol neu o dan fygythiad neu sancsiwn, *nid* yw gweithgarwch o'r fath yn cael ei ystyried yn wirfoddoli, hyd yn oed os yw'n cael ei wneud er budd y gymuned ac nid am fantais ariannol. Mae'n ddigon posibl y bydd yr unigolyn a'r gymuned ehangach yn elwa o brofiad o'r fath – mewn rhai achosion, bydd yn fan cychwyn i wirfoddoli drwy gydol oes – ac ni ddylid gwrthod cydnabod gwerth y person na'r gweithgarwch. Er hynny, mae'n bwysig iawn diogelu'r egwyddor mai mater o ddewis yw gwirfoddoli yn hytrach na gorfodaeth. Mae rhagor o ddiffiniadau o wirfoddoli a'i gwmpas yn Atodiad A.

Cwmpas gwirfoddoli

Mae hanes hir ac anrhydeddus o wirfoddoli yng Nghymru, wedi'i seilio ar draddodiadau hirsefydlog o gyd-gymorth a chydgefnogaeth. Yn 2014, mae oddeutu 33,000 o grwpiau sy'n gweithio er budd eu cymunedau, ac yn cael eu rhedeg gan fwy na 277,000 o bobl sy'n gwirfoddoli fel ymddiriedolwyr. Mae ychydig llai na miliwn o bobl yn gwirfoddoli mewn rhyw ffordd yn eu cymuned ac mae hyn yn cyfateb i tua 211 miliwn o oriau o waith gwirfoddol. Mae'r cyfraniad hwn gan wirfoddolwyr i fywyd cymunedau yng Nghymru yn bwysig dros ben.

Mae'n bwysig cydnabod bod y rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn yn digwydd yn gwbl annibynnol ar y wladwriaeth, heb unrhyw ariannu gan y wladwriaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r 33,000 o grwpiau'n fach ac wedi'u sefydlu i'w rhedeg gan bobl sydd am wneud rhywbeth er budd ei gilydd neu eu cymuned. Maent yn adlewyrchu'r hawl sylfaenol sydd gan bobl i drefnu a chydweithredu – dinasyddiaeth weithgar. Byddant yn cynnig lluo o weithgareddau – rhai diwylliannol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â chwaraeon – sy'n agweddau ar fywyd pob dydd y rhan fwyaf o bobl.

Manteision gwirfoddoli

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cydnabod bod gwirfoddoli'n 'beth da' i Gymru, sydd i'w hybu a'i gefnogi. Mae'n dod â manteision i'r unigolyn o ran datblygu rhwydweithiau cymdeithasol, gwella iechyd, lles a sgiliau yn ogystal â chreu ymdeimlad o berthyn i gymuned neu o arddel safbwynt ar fater penodol. Bydd cymunedau'n elwa o wirfoddoli mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys ei effaith o ran creu cydlyniant cymdeithasol a chynyddu cyfalaf cymdeithasol. Bydd sefydliadau'n elwa o'r cyfraniad gan wirfoddolwyr at gyflawni cenhadaeth y sefydliad a hefyd o'r hyblygrwydd a'r gwerth ychwanegol y maent yn eu cynnig drwy eu profiad a'u sgiliau. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael budd o gynnwys gwirfoddolwyr er mwyn gwella ac ymestyn eu gwasanaethau ac o weithio gyda sefydliadau yn y Trydydd Sector er mwyn cynnwys gwirfoddolwyr mewn modelau cyflenwi newydd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Er bod sefydliadau'n cael eu hannog i weithio gyda gwirfoddolwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau na fydd staff cyflogedig yn cael eu symud i roi gwirfoddolwyr yn eu lle.

Mae rhagor o wybodaeth am fanteision gwirfoddoli yn Atodiad B.

Rhanddeiliaid allweddol

Ymhlith y rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli yng Nghymru y mae sefydliadau sydd â diddordeb mewn cefnogi, ariannu neu weithio gyda gwirfoddolwyr. Yn benodol, maent yn cynnwys: Llywodraeth Cymru; sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r sector cyhoeddus ehangach; a Seilwaith y Trydydd Sector.

Mae disgrifiad byr isod o ddiddordeb y tri dosbarth cyffredinol o rhanddeiliaid ac mae rhagor o wybodaeth am eu rolau yn Atodiad C. Mae'r camau gweithredu sydd yn y ddogfen hon wedi'u cysylltu â phob un o'r dosbarthiadau hyn o rhanddeiliaid.

Ymrwymiad Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision a geir o ddarparu cyllid a chymorth ar gyfer gwirfoddoli. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld gwerth mawr mewn gwirfoddoli am ei fod yn fynegiant pwysig o ddinasyddiaeth ac yn elfen hanfodol mewn democratiaeth.

Llywodraeth Cymru – rolau allweddol

Mae rhan bwysig i'w chwarae gan Lywodraeth Cymru drwy roi arweiniad ar yr arferion gorau ar gyfer gwirfoddoli, drwy ddylanwadu ar arferion sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a hefyd drwy ddosbarthu grantiau i Seilwaith y Trydydd Sector.

Sefydliadau sy'n Cynnwys Gwirfoddolwyr – rolau allweddol

Mae'r dosbarth hwn o randdeiliaid yn cwmpasu amrywiaeth fawr o gyflogwyr a sefydliadau gan gynnwys cyflogwyr mawr yn y sectorau preifat a chyhoeddus yn ogystal â sefydliadau lleol llai yn y Trydydd Sector, rhai ohonynt yn cynnwys gwirfoddolwyr yn unig. Un ffactor sy'n eu diffinio yw eu bod yn cynnwys gwirfoddolwyr neu'n dymuno gweithio gyda gwirfoddolwyr yn eu meysydd diddordeb eu hunain.

Seilwaith y Trydydd Sector – rolau allweddol

Y prif sefydliadau yn Seilwaith y Trydydd Sector yw CGGC, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol. Mae'r rhain yn sefydliadau annibynnol ymreolus sydd wedi'u lleoli ledled Cymru sy'n cynnig cymorth, cyngor a hyfforddiant i'r Trydydd Sector ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r sefydliadau hyn yn chwarae rhan bwysig drwy ddylanwadu ar bolisi ar wirfoddoli a thrwy redeg rhai o'r mecanweithiau sy'n hybu gwirfoddoli fel y cynlluniau grant cenedlaethol ar gyfer gwirfoddoli.

Mae'r atodiadau i'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth esboniadol ychwanegol. Yn Atodiad A ceir diffiniadau o weithgareddau y gellir eu hystyried yn fathau o wirfoddoli. Mae Atodiad B yn cynnwys dadansoddiad o fanteision gwirfoddoli ac mae Atodiad C yn egluro'n fwy manwl y rolau pwysig sydd gan y sefydliadau sy'n allweddol ar gyfer hybu gwirfoddoli – Llywodraeth Cymru; y sector cyhoeddus ehangach a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr; a Seilwaith y Trydydd Sector.

Ar y tudalennau sy'n dilyn, nodir y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ynghylch ei hymrwymiad i wirfoddoli, y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr i'w cymryd, a'r ymrwymadau gan Seilwaith y Trydydd Sector i ddatblygu'r polisi hwn.

Adran 2: Pwrpas y polisi hwn yw:

2a. Ceisio gwella'r cyfleoedd gwirfoddoli i bobl o bob oed ac o bob rhan o gymdeithas

Mae'n bwysig sicrhau bod cyfleoedd i wirfoddoli ar gael i bawb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u cau allan o gyflogaeth ac amgylcheddau cymdeithasol eraill. Mae gwirfoddoli'n ffordd o greu cydlyniant cymdeithasol ac mae'n bwysig bod cyfle cyfartal gan bawb i gymryd rhan. Gall gwirfoddoli gynnig cyfleoedd i feithrin cyd-ddealltwriaeth a chyfeillgarwch rhwng gwahanol grwpiau yn y gymuned, fel pobl ifanc a phobl hŷn, ac i drechu arwahanu a rhagfarn. Mae nifer o ffactorau sy'n gallu atal gwirfoddoli ac mae'r rhain yn anfwriadol yn aml.

Gellir creu mwy o gyfleoedd i wirfoddoli drwy roi sylw i nifer o ffactorau gan gynnwys yr angen i fabwysiadu polisiâu priodol i recriwtio gwirfoddolwyr ac yn benodol drwy ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd ac ystyried yr anghenion am gymorth ychwanegol sydd gan rai gwirfoddolwyr, fel y rheini sydd ag anabledd neu anghenion cymorth ar lefel uwch.

Ceir gwell cyfranogi mewn gwirfoddoli drwy ddarparu cynlluniau grant sy'n hybu gwirfoddoli ac yn helpu i ddatblygu arferion da mewn sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr drwy eu polisiâu gwirfoddoli a thrwy reoli gwirfoddolwyr yn effeithiol. Mae'n bwysig ystyried y posibilrwydd o ad-dalu treuliau a ysgwyddir gan wirfoddolwyr er mwyn chwalu rhwystrau rhag cymryd rhan a hefyd er mwyn ystyried anghenion y gwirfoddolwr, gan gynnwys ymrwymadau teuluol, trafndiaeth neu'r angen am gymorth ychwanegol yn y man lle y mae'n gwirfoddoli.

Mae cefnogaeth leol drwy ganolfannau gwirfoddol yn allweddol hefyd yn y cyswllt hwn, er mwyn rhoi sylw i'r patrwm gwirfoddoli lleol gan gynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ac argaeledd darpariaeth drwy'r Gymraeg.

Rhaid cael eglurder ynghylch y rheoliadau sy'n ymwneud â budd-daliadau gwladol a gwirfoddoli er mwyn gallu annog unigolion i fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli. Mewn cyfnodau o ddirwasgiad a chyfraddau diweithdra cymharol uchel, rhaid cael dewisiadau buddiol eraill yn lle gwaith a fydd yn galluogi pobl i ennill mwy o hunanhyder a hunanbarch yn ogystal â dysgu sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr a chael profiad o waith. Dylid gwerthfawrogi hyn er ei fwyn ei hun yn ogystal ag fel cam ymlaen posibl allan o dlodi / allgau cymdeithasol ac yn ôl i gyflogaeth.

2b. Helpu gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn fwy effeithiol, gan gynnwys cymorth drwy hyfforddiant priodol

Mae gwirfoddolwyr yn weithgar mewn sefydliadau o lawer math gan gynnwys ysgolion, ysbytai a llyfrgelloedd yn ogystal â grwpiau cymorth ieuchyd a chyrff ymgyrchu a chyrff lles anifeiliaid. Fodd bynnag, mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae hefyd yn bwysig ymchwilio i feysydd newydd i ganfod cyfleoedd posibl ar gyfer gwirfoddoli yn y dyfodol.

Er mwyn cynnwys gwirfoddolwyr yn effeithiol mewn sefydliad, rhaid ystyried eu rolau, ffyrdd o'u recriwtio, eu sefydlu, eu diogelu, eu cydnabod, eu rheoli a'u cynorthwyo, yn ogystal â'r polisiau a gweithdrefnau sy'n effeithio arnynt. Mae angen neilltuo adnoddau priodol i ddelio â phob un o'r rhain.

Dylai sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ofyn am gyngor a chymorth gan CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol/Canolfannau Gwirfoddol Lleol wrth ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli. Mae CGGC a Chanolfannau Gwirfoddol Lleol yn gallu cynnig neu dynnu sylw at hyfforddiant ar reoli gwirfoddolwyr yn effeithiol a bydd hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael cymorth yn eu gweithgareddau a bod y sefydliadau sy'n eu cynnwys yn elwa o'r profiad o gynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr.

Mae'n bwysig bod gwirfoddolwyr yn deall y rhesymau dros y gweithgareddau y maent yn eu cyflawni fel unigolion a sut y mae'r rhain yn cyfrannu at waith y sefydliad a'i gyflawniadau. Gall hyn fod o gymorth i wella canlyniadau. Er mwyn dadansoddi hyn, bydd yn ddymunol edrych ar yr effaith a gaiff gwirfoddolwyr.

2c. Codi statws gwirfoddoli a gwella ei ddelwedd

Mae'r statws a'r ddelwedd sydd i wirfoddoli'n gwella drwy gael sylw cadarnhaol yn y cyfryngau; drwy ddatgan beth y mae gwirfoddolwyr wedi'i gyflawni, gan gynnwys cyflawniadau mewn rolau llywodraethu; drwy fod yn agored i bobl o bob math o gefndiroedd a thrwy wrando ar y gwirfoddolwyr eu hunain yn sôn am eu profiadau. Mae hefyd yn bwysig dathlu a chydabod gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn gymwys i wirfoddolwyr ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd.

Adran 3: Er mwyn cyflawni'r dibenion hyn, cymerir y camau canlynol:

Bydd Llywodraeth Cymru yn

- Cydweithio â sefydliadau seilwaith y Trydydd Sector i feithrin cyd-ddealltwriaeth o'r rhwystrau i wirfoddoli ac i bennu meysydd lle y gellir gwella'r cyfleoedd i gymryd rhan.
- Cefnogi sefydliadau Seilwaith y Trydydd Sector a chynlluniau grant cenedlaethol er mwyn darparu'n well ar gyfer cymryd rhan drwy wirfoddoli gan bawb ac yn enwedig gan bobl ifanc; grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli; y rheini sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol a'r rheini sydd ag anghenion cymorth ychwanegol.
- Sicrhau bod cynlluniau grant a dulliau eraill o ariannu'n cynnwys darpariaeth briodol i ad-dalu gwirfoddolwyr am dreuliau cymeradwy.
- Hyrwyddo'r defnydd o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol a <http://www.gwirfoddolcymru.net/> gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid a chan sefydliadau sy'n ceisio recriwtio gwirfoddolwyr a darpar wirfoddolwyr.
- Sicrhau ei bod fel cyflogwr yn hybu gwirfoddoli, yn pennu cyfleoedd newydd i wirfoddoli ac yn cyhoeddi ei pholisi ei hun ar wirfoddoli gan ei gweithwyr.
- Pennu cyfleoedd i gynnwys mwy o wirfoddolwyr i'w helpu i gyflawni ei pholisïau trawsbynciol yn ogystal â phennu lle y gellir cynnwys mwy o wirfoddolwyr mewn meysydd gwasanaeth cyhoeddus pwysig. Enwi hyrwyddwyr gwirfoddoli ym mhob un o Adrannau Llywodraeth Cymru i hybu'r gwaith hwn a rhannu arferion da ar gynnwys gwirfoddolwyr.
- Annog awdurdodau lleol a sefydliadau sector cyhoeddus i fabwysiadu polisïau gwirfoddoli a'u rhoi ar waith er mwyn ymgysylltu â gwirfoddolwyr.
- Datblygu mecanweithiau i ystyried effaith deddfwriaeth a rheoliadau ar wirfoddoli, gan gynnwys rheoliadau Llywodraeth y DU ar fudd-daliadau gwladol.
- Cydweithio â Seilwaith y Trydydd Sector a'i phartneriaid i barhau i adnabod, hyrwyddo a dangos tystiolaeth o'r sgiliau y mae unigolion wedi'u dysgu drwy wirfoddoli.
- Cydweithio â Seilwaith y Trydydd Sector i hyrwyddo cydnabyddiaeth i wirfoddoli gan y cyhoedd drwy sicrhau mwy o gyhoeddusrwydd i gyflawniadau gan wirfoddolwyr gan gynnwys cyhoeddusrwydd mewn gwahanol gyfryngau cymdeithasol.
- Hybu gwirfoddoli, gan barhau i gefnogi amrywiaeth fawr o wobrwyon priodol am wirfoddoli, ymysg camau eraill.
- Sicrhau bod unrhyw gynlluniau grant yn cydymffurfio â safonau Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Bydd sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn cael eu hannog i gymryd y camau canlynol:

- Datblygu polisi sefydliadol ar wirfoddoli sy'n cynnwys darparu ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr; hyfforddiant; ad-dalu treuliau os yw'n briodol ac yn bosibl; ac sy'n hyrwyddo manteision gwirfoddoli o fewn eu sefydliadau.
- Sicrhau bod eu polisïau ac arferion ar gyfer gwirfoddoli'n ystyried materion sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac eraill.
- Darparu'n briodol ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr o grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol gan gynnwys pobl anabl, pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol, a'r rheini sydd ag anghenion cymorth ychwanegol.

- Ystyried anghenion iaith y cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw a cheisio hyrwyddo cyfleoedd priodol i wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill os oes angen.
- Gofyn am gyngor gan CGGC a Chanolfannau Gwirfoddol wrth bennu cyfleoedd posibl ar gyfer gwirfoddoli a hysbysebu eu cyfleoedd gwirfoddoli'n eang a thrwy <http://www.gwirfoddolicymru.net/>
- Cyfeirio darpar wirfoddolwyr at Ganolfannau Gwirfoddol os na ellir dod o hyd i gyfleoedd priodol i wirfoddoli o fewn y sefydliad.
- Ceisio cyfleoedd i gynnwys eu defnyddwyr gwasanaeth fel gwirfoddolwyr er mwyn adolygu a gwella ansawdd a phriodoldeb eu gwasanaethau.
- Cynnig amrywiaeth fawr o rolau a ffyrdd o gynnwys gwirfoddolwyr, fel micro-wirfoddoli; gwirfoddoli rhithiol; gwirfoddoli rheolaidd ac interniaethau.
- Cydnabod y pwysigrwydd o fesur effaith gwirfoddolwyr, gan gynnwys y defnydd o'r Pecyn Cymorth Asesu Effaith Gwirfoddoli (a weithredir gan CGGC o dan drwydded NCVO) yng Nghymru.
- Sicrhau sylw eang drwy'r cyfryngau i'r gwaith da y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud a chyflwyno cyflawniadau eu gwirfoddolwyr i'w hystyried gan wahanol baneli Gwobrwy lle bo'n briodol.

Bydd Seilwaith y Trydydd Sector yn:

- Sicrhau bod <http://www.gwirfoddolicymru.net/> a Chanolfannau Gwirfoddol yng Nghymru'n parhau i gynnig cyfleoedd i wirfoddoli.
- Sicrhau bod Canolfannau Gwirfoddol/Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn hysbysebu ac yn hybu gwirfoddoli, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd a phobl sydd ag angen cymorth ychwanegol.
- Sicrhau bod arferion da wrth recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr yn cael eu hyrwyddo drwy gymryd rhan yn y cynllun Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a thrwy ddarparu gwybodaeth i sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, ac eraill.
- Cynghori sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ar arferion da i'w cynnwys yn eu polisiau gwirfoddoli.
- Ystyried opsiynau ar gyfer hwyluso hyfforddiant ar reoli gwirfoddolwyr.
- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael ar reoli gwirfoddolwyr ac yn ei hyrwyddo a'i ddwyn i sylw pobl.
- Sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i ddewis iaith gwirfoddolwyr a'r bobl y byddant yn dod i gysylltiad â nhw drwy eu rôl gwirfoddoli. Cydweithio â sefydliadau priodol fel Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Mentrau Iaith a grwpiau Cymraeg eraill i bennu cyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys pobl sydd am wella eu sgiliau iaith Gymraeg.
- Darparu gweinyddiaeth ar gyfer cynlluniau grant cenedlaethol ar gyfer gwirfoddoli gan roi pwyslais penodol ar gynnwys pobl ifanc a phobl mewn grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ym maes gwirfoddoli.
- Hyrwyddo'r pwysigrwydd o fesur effaith gwirfoddolwyr, gan gynnwys y defnydd o'r Pecyn Cymorth Asesu Effaith Gwirfoddoli (o dan drwydded NCVO) yng Nghymru.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i adnabod, hyrwyddo a dangos tystiolaeth o'r sgiliau y mae unigolion wedi'u dysgu drwy wirfoddoli.
- Parhau i redeg cynlluniau gwobrwy a dathliadau, fel Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru ac Wythnos y Gwirfoddolwyr.

- Hysbysebu gwirfoddoli drwy sicrhau bod sylw amlwg iddo ar wefannau a bod storïau am wirfoddolwyr yn cael eu casglu a'u cyfleu ar wefannau, yn y wasg leol ac mewn cyfryngau cymdeithasol
- Gwneud sylwadau am bolisiâu a rheoliadau'r Llywodraeth o ran eu heffaith ar wirfoddoli, yn ôl yr angen.

Mathau o Wirfoddoli

Mae llawer math o wirfoddoli. Fel arfer, bydd arolygon yn gwahaniaethu rhwng gwirfoddolwyr 'ffurfiol' ac 'anffurfiol' ac mae gwirfoddolwyr o bob math yn gallu cyfrannu at gynllunio ffyrdd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid nodi na fydd pawb yn cytuno bod yr holl enghreifftiau isod yn bodloni'r diffiniad o wirfoddoli; maent wedi'u cynnwys yma er gwybodaeth ond ni ddylid cymryd bod yr atodiad hwn yn cynnig diffiniad terfynol os ceir unrhyw wahaniaeth barn.

Gwirfoddoli Anffurfiol

Mae gwirfoddoli anffurfiol yn cael ei gyflawni gan unigolion er mwyn pobl eraill neu grwpiau cymunedol, er na fydd unigolion o'r fath yn eu hystyried eu hunain yn wirfoddolwyr bob amser. Mae'n cynnwys cymorth i gymdogion, gweithredu cymunedol, cymryd rhan mewn grwpiau ffydd a chymunedol, rhoi help llaw mewn digwyddiadau lleol. Nid oes prosesau ffurfiol ar gyfer recriwtio. Mae gwirfoddoli o'r math hwn yn digwydd o'r golwg gan mwyaf yn ein cymunedau ond mae ganddo wreiddiau dwfn yn niwylliant Cymru. Dylid ei ddathlu a'i hyrwyddo.

Gwirfoddoli Ffurfiol

Mae gwirfoddoli ffurfiol yn digwydd mewn sefyllfaoedd lle y mae ymdrechion y gwirfoddolwr yn cael eu sianelu drwy sefydliad penodol. Mae sefydliadau o'r fath yn cael eu galw weithiau'n 'sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr'.

Mae llawer o gyfleoedd i wirfoddoli'n addas i bawb, a chynigir cymorth a hyfforddiant cynefino addas. Bydd rhai cyfleoedd yn galw am hyfforddiant manwl i gyflawni'r rôl (er enghraifft, gwaith cynghori, gwaith ieuenctid gan gynnwys sgowtiaid a geidiaid, a gwasanaethau brys). Bydd rhai'n galw am arbenigedd neu gymhwyster blaenorol (ar gyfer llawer o gyfleoedd gwirfoddoli mewn gwledydd tramor, er enghraifft). Gellir gwirfoddoli unwaith, dros gyfnod byr, neu drwy ymrwymo dros gyfnod hwy.

Yng nghyd-destun gwirfoddoli modern, mae rhai mathau mwy diweddar a chyfnewidiol, er enghraifft:

Gwirfoddoli Rhithiol

Mae gwirfoddoli rhithiol yn cael ei alw weithiau'n e-wirfoddoli, neu wirfoddoli ar-lein. Mae'n derm am wirfoddolwr sy'n cyflawni tasgau, yn rhannol neu'n llwyr, y tu allan i safle'r sefydliad sy'n derbyn cymorth, drwy ddefnyddio'r Rhyngwrdd a chyfrifiadur yn y cartref, yr ysgol, mewn canolfan delathrebu neu yn y gwaith, neu ddyfais arall sydd wedi'i chysylltu â'r Rhyngwrdd, fel ffôn clyfar. Mae gwirfoddoli rhithiol hefyd yn cael ei alw'n seiberwasanaeth, tele-fentora, tele-diwtora, ac amryw o enwau eraill.

Micro-wirfoddoli

Micro-wirfoddoli yw tasg a gyflawnir heb dâl drwy ddyfais sydd wedi'i chysylltu â'r Rhyngwrdd neu rwydwaith ffôn o fewn cyfnod byr, er enghraifft, anfon neges testun neu

lun. Mae'n wahanol i wirfoddoli rhithiol gan nad yw'n galw fel arfer am gais neu hyfforddiant ffurfiol ac mae'n para am gyfnod byr.

Gwirfoddoli â chymorth cyflogwr

Gall sefydliad y gweithiwr ganiatáu iddo dreulio nifer o oriau gwaith am dâl mewn gweithgarwch gwirfoddol, un ai drwy gynllun y cyflogwr ei hun neu drwy drefniadau personol y gweithiwr. Y fantais i'r cyflogwr yw ei fod yn hybu ymwybyddiaeth o'i frand a chysylltiad ag ef, yn cryfhau ymddiriedaeth a theyrngarwch ymysg defnyddwyr a gweithwyr ac yn hyrwyddo delwedd ac enw da'r gorfforaeth. Mewn rhai achosion, bydd y cyflogwr yn ffurfio partneriaeth â sefydliad yn y Trydydd Sector neu ysgol ac yn ymgymryd â phrosiect meithrin tîm (gwaith ailaddurno/adnewyddu fel arfer) sydd hefyd yn arwain at ganlyniad da i'r sefydliad cymunedol.

Gwirfoddoli ar gyfer achredu

Ar gyfer pobl ifanc, mae Bagloriaeth Cymru a chynllun Gwobr Dug Caeredin yn cynnwys elfen gwirfoddoli. Mae nifer cynyddol o gyrsiau galwedigaethol (e.e. cwnsela) yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ennill profiad perthnasol drwy wirfoddoli. Er bod gwirfoddoli'n elfen orfodol, ac y gellid dadlau bod hynny'n tanseilio'r egwyddor bod gwirfoddoli'n fater o ddewis rhydd, fe fydd cynlluniau o'r fath yn aml yn peri i'r cyfranogwyr benderfynu parhau i wirfoddoli ar ôl cymryd rhan yn orfodol. Felly gallant fod yn fan cychwyn i gyfnod hir o wirfoddoli.

Interniaethau

Mae interniaethau'n para am gyfnod penodol. Eu pwrpas yw cyflawni gwaith penodol a fydd o fantais i'r intern ac i'r sefydliad. Gall interniaid dderbyn tâl neu weithio'n ddi-dâl mewn sefydliadau yn y Trydydd Sector neu'r sector cyhoeddus neu breifat. Mae interniaethau di-dâl yn fath o wirfoddoli.

Gwirfoddoli fel profiad sy'n gysylltiedig â gwaith

Gall unigolyn chwilio am gyfle i wirfoddoli er mwyn dysgu sgiliau ac ennill profiad i'w cynnwys yn ei CV ac i ennill hyder yn y gweithle. Profiad cysylltiedig â gwaith yw hwn. Ei bwrpas yw cynyddu'r gallu i sicrhau cyflogaeth. Gall asiantaethau cyswllt gyfeirio unigolion at Ganolfannau Gwirfoddol neu sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr er mwyn cael cyfleoedd o'r fath.

Gwirfoddoli Dinesig

Mewn rhai cymunedau, bydd cyfleoedd i breswylwyr gymryd rhan mewn prosiectau sy'n ymwneud â bywyd dinesig lleol, er enghraifft, prosiectau gefeillio trefi, mudiadau masnach deg a mentrau trefi trawsnewid.

Mae gwaith arloesol gan weithredwyr lleol yn gallu arwain at bob math o gyfleoedd i wirfoddoli gan gynnwys gwasanaethu ar stondinau, rhedeg prosiectau, trefnu digwyddiadau ac ymgyrchu. At ei gilydd, nid oes trefniadau recriwtio a rheoli ffurfiol ar gyfer cyfleoedd o'r fath ac maent ar gael i'r rheini sydd am gymryd rhan.

Mentrau Cymdeithasol

Yn 2009 comisiynwyd ymarfer mapio o fentrau cymdeithasol yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel yr oedd ar y pryd. Y diffiniad o fenter gymdeithasol a ddefnyddiwyd, yn yr un modd â Llywodraeth y DU, oedd: busnes ag amcanion cymdeithasol yn bennaf sy'n ail-fuddsoddi ei wagedau i'r diben hwnnw yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na'i fod yn cael ei sbarduno gan yr angen i sicrhau'r elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr. Gall mentrau cymdeithasol fod ar wahanol ffurfiau cyfreithiol gan gynnwys Elusennau cofrestredig, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, Sefydliadau Elusennol Corfforedig, a Chwmnïau Cyfyngedig drwy Warant.

Yn ôl amcangyfrif yr ymarfer mapio, roedd 105,000 o gyfleoedd gwirfoddoli mewn mentrau cymdeithasol yng Nghymru, ynghyd â 29,000 o swyddi amser llawn a 20,000 o swyddi rhan-amser. Cafwyd nad oes staff amser llawn gan oddeutu hanner y sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch menter gymdeithasol ac, o blith y rheini sydd â staff amser llawn, mai dim ond chwarter sydd â mwy na deg aelod staff amser llawn.

Manteision gwirfoddoli

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cydnabod bod gwirfoddoli'n 'beth da' i Gymru, sydd i'w gefnogi a'i hyrwyddo. Mae'n dod â manteision i'r unigolyn, i'r sefydliadau a mudiadau y maent yn cymryd rhan ynddynt, ac i gymunedau'n gyffredinol.

Manteision i'r unigolyn

Mae gwirfoddoli'n gysylltiedig ag anhunanoldeb – yr awydd i wneud lles i'r bobl a'r achosion sy'n bwysig i ni. Mae gweithredu anhunanol yn fynegiant o'r pethau gorau yn y natur ddynol. Dyma'r hyn y mae Maslow yn ei alw'n 'self actualisation' – gwireddu ein potensial ar ôl diwallu ein hanghenion mwy sylfaenol (am ddiogelwch, perthyn etc). Gellir dadlau bod y cyfle i fynegi'r pethau gorau yn ein natur ddynol ynddo'i hun yn 'fantais' i'r unigolyn.

Dylai fod buddiannau amlwg o ran hawl ddynol gwirfoddolwr unigol. Mae gwirfoddolwyr a gaiff y gefnogaeth briodol yn fwy tebygol o ddod yn ddeiliaid hawliau gweithredol o ran eu cynrychiolaeth eu hunain a'u hymwneud â chymunedau, cymdeithas a gwasanaethau. Byddant hefyd yn dod yn fwy gweithredol o ran cael gafael ar eu hawliau eu hunain a hybu a diogelu hawliau eraill.

Bydd pobl yn gwirfoddoli hefyd am resymau mwy ymarferol – gan y bydd gwneud hynny'n gweithio o'u plaid. Mae'r ffaith hon wedi'i hen gydnabod ac mae'n cael ei galw weithiau'n 'wirfoddoli trafodaethol'. Un enghraifft o hyn yw Bancio Amser, lle y gall yr unigolyn ennill credydau amser am roi o'i amser fel gwirfoddolwr (e.e. drwy sefydliad neu grŵp cymunedol) a chyfnewid y credydau hyn (e.e. mewn sinema neu ganolfan hamdden neu am le ar gwrs neu mewn digwyddiad). Mae deall dyheadau a chymhellion y gwirfoddolwr yn hanfodol er mwyn rheoli gwirfoddolwyr yn llwyddiannus. Derbynnir bod gwirfoddoli'n dod â budd i'r ddwy ochr – i'r sefydliad ac i'r unigolyn.

Y manteision mwyaf cyffredin i wirfoddolwyr yw:

- Meithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol, creu ymdeimlad o berthyn;
- Mwynhau gweithgarwch bwriadus, gan gynnwys gweithgareddau hamdden 'difrifol' fel hyfforddi chwaraewyr;
- Dysgu sgiliau ac ennill profiad – e.e. er mwyn cael gwaith neu symud ymlaen mewn gyrfa, neu er mwyn cael her newydd;
- Gwella iechyd a lles
- Datblygiad personol, gan gynnwys meithrin hyder a hunan-barch;
- Profi ymreolaeth, meithrin profiad o gydraddoldeb a thegwch ac ymrwymiad i hynny; gwella urddas unigol a lleihau natur agored i niwed unigol
- Hunangymorth a chyd-gymorth - er enghraifft, mae'r bobl hynny sy'n wynebu salwch cronig, amgylchiadau trasig neu gyfrifoldebau gofalu yn cael budd o gymdeithasu ag eraill sydd wedi cael profiadau tebyg;
- Teimlad eu bod yn rhoi rhywbeth yn ôl i gymdeithas.

Manteision i sefydliadau

Mae nifer o sefydliadau'n cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, ac ni fyddent yn bodoli hebddynt. Os yw sefydliad yn cynnwys staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, y manteision mwyaf cyffredin i'r sefydliad yw'r rhai canlynol:

- Gall cyfranogiad gwirfoddolwyr wella prosesau cynllunio strategol agored a chynhwysol
- Ei bod yn bosibl mai gweithgarwch y gwirfoddolwyr sy'n cyflawni cenhadaeth y sefydliad, a bod staff cyflogedig yn darparu cymorth wrth gefn.
- Bod gwaith y gwirfoddolwyr yn ategu ac yn ychwanegu at waith y staff cyflogedig. Maent yn rhoi'r gallu i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd hyblyg ac i arbrofi â dulliau newydd.
- Gall gwirfoddolwyr ddod â gwerth ychwanegol, drwy eu priodoleddau personol, eu profiad a'r amser y maent yn ei roi i'r grŵp cleientiaid.
- Gan eu bod yn cynrychioli'r gymuned y mae'r sefydliad yn ei gwasanaethu, maent yn dod â llais lleol ac yn ychwanegu at hygyrdd y sefydliad. Maent yn rhoi prawf ar y sefydliad ac yn ei gyfoethogi drwy eu syniadau a'u cyfraniad ac maent yn gwella cysylltiadau sefydliad â buddiolwyr cymunedol a gwasanaeth.
- Mae gwirfoddolwyr yn cynyddu'r potensial i sefydliadau fod yn fwy deniadol i gyllidwyr.

Dylai sefydliadau hefyd gael budd o hybu dulliau o gyflawni eu canlyniadau ar sail hawliau dynol. Wrth wraidd hyn fyddai darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol ar gyfer staff cyflogedig sefydliad a'i wirfoddolwyr.

Mae gweithio gyda gwirfoddolwyr yn elfen ganolog yng ngwaith nifer o sefydliadau gwahanol. Ond er mwyn sicrhau bod y manteision yn parhau, mae angen cynllunio a rheoli gwasanaethau gwirfoddol yn ofalus. Mae'n amlwg bod cynnwys gwirfoddolwyr yn dod â manteision o ran cost i'r sefydliad. Er hynny, ni ddylid ystyried bod gwirfoddolwyr a gwasanaethau gwirfoddol yn ddewis rhad yn lle gwasanaethau sydd wedi'u hariannu'n briodol a staff cyflogedig. Rhaid cael rhesymau da dros gynnwys gwirfoddolwyr (er enghraifft, un o'r rhesymau uchod) heblaw torri costau. Nid yw gwirfoddolwyr yn ddigost. Bydd goblygiadau o ran adnoddau, i'r sefydliad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ac weithiau i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Bydd angen i sefydliadau gynllunio a chyllidebu ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â recriwtio a hyfforddi, cymorth, a chynnwys a chydabod gwirfoddolwyr.

Manteision i'r gymuned ehangach

Mae gwirfoddoli'n datblygu cyfalaf cymdeithasol yn y ffyrdd canlynol:

Darparu gwasanaethau – Gall gwirfoddolwyr gryfhau'r gwasanaethau presennol. Maent yn chwarae rhan bwysig iawn mewn gofal iechyd, gan weithio mewn amrywiaeth o leoliadau a darparu gwahanol fathau o wasanaethau ochr yn ochr â staff cyflogedig. Er enghraifft, mae gwasanaeth yr Heddlu yn cynnwys gwirfoddolwyr mewn nifer o wahanol rolau, gan ryddhau swyddogion a staff i gyflawni dyletswyddau gweithredol allweddol a dod â manteision sylweddol i'r gwasanaeth ac i gymunedau lleol. Mae nifer mawr o wasanaethau eraill a gweithgareddau cymunedol yn dibynnu ar wirfoddolwyr, er enghraifft, ym maes chwaraeon, gwaith ieuenctid, grwpiau ffydd, gwyliau, diwylliant, yr amgylchedd naturiol, gwleidyddiaeth a gwasanaethau cynghori/cymorth. Felly mae gwirfoddoli'n helpu i ddatblygu cymdeithas ddinesig gryf a chymunedau cydnerth a bywiog.

Gwella lles cymdeithasol – Mae diddordeb cynyddol mewn asesu lles personol a chymdeithasol, yn ogystal â lles economaidd. Mae lles yn ymwneud â bodlonrwydd a hapusrwydd yn ogystal â boddhad a chysylltiad â'r gymuned. Mae gwirfoddoli yn y gymuned yn cyfrannu'n helaeth at wella lles.

Cymryd rhan mewn democratiaeth - Mae gwirfoddoli'n fynegiant o ddemocratiaeth - pobl yn arfer eu hawl i gymdeithasu a gweithredu er mwyn newid. Pan fydd gwirfoddolwyr yn gysylltiedig â sefydliadau ffurfiol, gallant gynnwys llais y dinesydd mewn penderfyniadau ar bolisi. Gallant gyfrannu hefyd at lunio gwasanaethau cyhoeddus. Yng Nghymru, mae sefydliadau'r trydydd sector, drwy eu rhwydweithiau, yn ymgysylltu â'r Llywodraeth drwy gyfarfodydd chwe-misol â Gweinidogion Cymru ac yng nghyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a thrwy ddulliau eraill.

Cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol – Mae cyfleoedd i wirfoddoli ar gael i bawb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u cau allan o gyflogaeth a rhwydweithiau cymdeithasol eraill. Gall roi cyfleoedd i feithrin cyd-ddealltwriaeth a chyfeillgarwch rhwng carfannau yn y gymuned a threchu arwahanu a rhagfarn. Er enghraifft, mae ceiswyr lloches yn gallu dechrau integreiddio â'r gymuned ehangach drwy wirfoddoli.

Gwirfoddoli fel elfen allweddol o weithio gyda chymunedau i ad-drefnu gwasanaethau

Mae diddordeb cynyddol mewn cynnwys cymunedau yn y gwaith o ad-drefnu gwasanaethau yng Nghymru. Drwy gydweithio â chymunedau, gellir creu cyfleoedd i wella gwasanaethau, gan fod arbenigedd proffesiynol yn cael ei gyfuno ag arbenigedd, profiad a dealltwriaeth pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gwirfoddolwyr a sefydliadau cymunedol. Mae'r trydydd sector yn arbenigo mewn gwybod sut i ysbrydoli, sbarduno a galluogi pobl i weithredu a chreu perchnogaeth a strwythurau cymunedol.

Drwy roi pobl wrth wraidd gwasanaethau yn y fath fodd gwelir nad oes un ffordd gywir o wneud pethau ac nad oes un dull cyffredinol o gyflawni pob amcan. Bydd cydberthnasau adeiladol, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, yn allweddol i ba fodel bynnag o gydweithio â chymunedau a dinasyddion a ddatblygir.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y cyflawnir y gwasanaethau cyhoeddus mwyaf effeithiol ac effeithlon os yw'r bobl sy'n eu defnyddio, yn eu darparu ac yn eu comisiynu yn cydweithio wrth gynllunio, dylunio, darparu a chraffu ar wasanaethau. Mae gan y Trydydd Sector ran hollbwysig i'w chwarae wrth gefnogi a grymuso pobl i gyfrannu at y pedair elfen, a gall gwirfoddolwyr chwarae rhan hanfodol ymhob un o'r rhain.

Cefnogi gwirfoddoli yng Nghymru

Y rhanddeiliaid allweddol yn yr agenda ar wirfoddoli yng Nghymru yw Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a Seilwaith y trydydd sector. Mae rolau allweddol pob un o'r rhain wedi'u disgrifio isod:

Llywodraeth Cymru – rolau allweddol

Mae disgrifiad yn Atodiad B o'r manteision y mae gwirfoddoli'n eu cynnig i unigolion, cymdeithas a'r gymuned ehangach a dyma'r manteision i les y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w hymestyn a'u hyrwyddo ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni nifer o rolau mewn cysylltiad â'r polisi gwirfoddoli hwn. Un o'i rolau pwysicaf yw sefydlu'r arferion gorau wrth gynorthwyo staff yn y sefydliad ei hun. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu sicrhau bod y cyllid y mae'n ei ddosbarthu i gyrff sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn ategu'r polisi gwirfoddoli hwn lle bo'n gymwys. Agweddau perthnasol iawn ar hyn fydd y Telerau ac Amodau ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, cyllid ar gyfer y Cytundeb Partneriaeth â Seilwaith y Trydydd Sector (CGGC, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol) ac ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Gall Llywodraeth Cymru hefyd arfer ei dylanwad sylweddol i hybu'r arferion gorau mewn sefydliadau eraill sy'n cynnwys gwirfoddolwyr – fel cyflogwyr preifat mawr.

Sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr – rolau allweddol

Mae'r term 'sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr' yn cwmpasu llawer math o gyflogwyr a sefydliadau gan gynnwys sefydliadau mawr yn y sector preifat yn ogystal â sefydliadau llai yn y Trydydd Sector a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus fel awdurdodau lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol. Un ffactor sy'n eu diffinio yw eu bod yn defnyddio gwirfoddolwyr, neu'n dymuno defnyddio gwirfoddolwyr, i ddatblygu eu meysydd thematig eu hunain. Mae cydweithio â gwirfoddolwyr yn ffordd ragorol o uniaethu a chysylltu â materion yn y gymuned ehangach. Fodd bynnag, er mwyn cael y gorau gan wirfoddolwyr a sicrhau bod yr unigolion yn elwa o'u profiad, mae'n bwysig bod sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn ystyried sut y bydd y gwirfoddolwyr yn cael eu rheoli ac, yn benodol, pa adnoddau sydd ar gael i'w hyfforddi a'u datblygu mewn ffordd briodol.

Seilwaith y trydydd sector – rolau allweddol

Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei pherthynas ehangach â'r Trydydd Sector yng Nghymru, yn darparu cyllid i gefnogi gwahanol fathau o sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol drwy'r Cytundeb Partneriaeth. Y nod wrth gefnogi'r sefydliadau hyn yw sicrhau bod cymorth cynaliadwy ar gael i'r Trydydd Sector yn gyffredinol. Cyllid sydd o ddiddordeb penodol yn y polisi hwn yw cyllid ar gyfer cyrff Seilwaith y Trydydd Sector sy'n cynnwys CGGC, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol a chyllid ar gyfer cynlluniau grant sy'n ymwneud â gwirfoddoli. Er bod y sefydliadau hyn yn cael eu galw'n gyrff seilwaith weithiau, maent yn sefydliadau annibynnol sydd wedi pennu eu blaenoriaethau a'u canlyniadau eu hunain i ddiwallu anghenion yn eu hardal leol.

Bydd y dull o ariannu'r Seilwaith drwy'r Cytundeb Partneriaeth yn gyson â'r polisi hwn lle bo'n briodol. Hefyd bydd y cyrff Seilwaith yn arfer eu dylanwad sylweddol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i adnabod a rhannu arferion da mewn nifer o ffyrdd, gan

gynnwys camau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i gynorthwyo a rheoli gwirfoddolwyr drwy wefannau, cyhoeddiadau a bwletinau a'r cynllun Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr. Mae rhan ganolog i'w chwarae gan y Seilwaith mewn recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr, drwy ddulliau ffisegol ac ar-lein ymysg eraill. Mae'r cyllid ar gyfer cynlluniau grant ar gyfer gwirfoddoli a ddarperir drwy Lywodraeth Cymru yn cael ei reoli gan y Seilwaith ac mae'r wybodaeth leol am yr hyn sy'n gweithio, beth sydd ei angen ac, yn benodol, y ffyrdd gorau o ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn neilltuol o berthnasol i lwyddiant y nodau cyffredinol yn y polisi hwn dros y tymor hwy. Mae rhaglenni gwirfoddoli ieuenctid, yn benodol, yn rhoi man cychwyn ar gyfer gwirfoddoli gan bobl ifanc, a gall hyn fod yn gam ymlaen hefyd at wirfoddoli drwy gydol oes. Mae'r Seilwaith cyfan yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu polisïau lleol a chenedlaethol ar wirfoddoli ac mae'n cydweithio â Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i wella arferion a phennu cyfleoedd i wirfoddoli o ansawdd da. Mae Canolfannau Gwirfoddol, yn benodol, yn darparu cymorth estynedig i wirfoddolwyr sydd ag anghenion ychwanegol ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda chyrff yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r Trydydd Sector i greu cyfleoedd newydd i wirfoddoli sydd o ansawdd uchel ac i hyrwyddo gwirfoddoli yn y gymuned leol yn gyffredinol.